LC1449

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i awdurdodau lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth dan Ran ll Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r Rheoliadau yn manylu ar swyddogaethau nad oes rhaid iddynt, nad oes angen iddynt, neu sydd yn unig i fod yn swyddogaethau gweithrediaeth. Maent yn cydgrynhoi Rheoliadau a wnaethpwyd yn flaenorol trwy ddisodli a dirymu'r Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 (fel y diwygiwyd hwy).

**Rheol Sefydlog 11.7**
Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

**Sylwadau**
Trwy'r Rheoliadau mae'r term "Executive" yn cychwyn gyda llythyren fach "e" yn hytrach na gyda "E" fawr fel sy'n ymddangos yn y term fel y diffiniwyd yn rheoliad 2. Gellir cywiro hyn wrth gyhoeddi. Mae angen cywiriad tebyg yn y testun Cymraeg ble y dylid defnyddio "G" fawr yn y term "Gweithrediaeth".

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**06 Chwefror 2007**